# Polisi Amddiffyn a Diogelu Plant

**CYSYLLTIADAU ALLWEDDOL – Os oes gennych bryder o unrhyw fath cysylltwch gyda'r isod.**

| | |
|---|---|
| **Person Dynodedig Amddiffyn a Diogelu o fewn GCYGM** | **Tudur Eames, Cyfarwyddwr Creadigol**<br>**01286 685289 / 07494 771645**<br>**tudur@cerdd.com** |
| **Cyswllt Person Cyfrifol - Gwynedd** | **Bethan Helen Jones , Uwch Swyddog Diogelu Plant**<br>**01286 679007** |
| **Cyswllt Person Cyfrifol – Môn** | **Gweithiwr Cymdeithasol plant ar alwad**<br>**01248 752752**<br>**Swyddogion teulu**<br>**01248 725888** |

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi** | **Pol_GCYGM_1C** |
| **Fersiwn** | **2** |
| **Dyddiad mabwysiadu / adolygiad diwethaf** | **Ebrill 2025** |
| **Dyddiad adolygiad nesaf** | **Ebrill 2026** |
| **Dogfen heb ei rheoli ar ôl ei hargraffu** | |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Prif amcan Gwasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd a Môn (GCYGM) yw annog gweithgarwch cerddorol yng Nghymru yn benodol trwy hyrwyddo celfyddyd mynegiannol a cherdd yng nghyd-destun dawns, drama, barddoniaeth, teledu a ffilm. Rydym yn cyflawni hyn trwy ddarparu gwersi cerdd offerynnol a lleisiol i oddeutu 5,000 o ddisgyblion gan tua 50 o diwtoriaid proffesiynol, gweinyddu ein cynllun benthyca offerynnau cerddorol a chydlynu'r ensembles rhanbarthol a sirol.

## 2. PWRPAS

2.1 Mae'r polisi hwn yn cadarnhau ymrwymiad a chyfrifoldebau GCYGM i amddiffyn plant a phobl ifanc sydd yn ymwneud â'r gwasanaeth rhag niwed.

## 3. CWMPAS

3.1 Mae'r polisi yn gymwys ac yn weithredol ar draws holl weithgareddau'r gwasanaeth ac yn berthnasol i staff cyflogedig, tiwtoriaid, ymddiriedolwyr ac unrhyw un arall sydd yn gweithredu yn enw GCYGM.

## 4. DATGANIAD

4.1 Mae GCYGM yn cydnabod ei gyfrifoldebau i warchod y plant a phobl ifanc sydd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol rhag niwed. Fel sefydliad, rydym yn benderfynol o gymryd yr holl gamau angenrheidiol i wneud hynny.

## 5. MANYLION POLISI

### 5.1 Egwyddorion

5.1.1 Mae'r polisi hwn yn sefydlu rôl a chyfrifoldebau'r GCYGM ac yn esbonio'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan bawb sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau a ddarperir. Mae'n amlygu'r pwysigrwydd y mae GCYGM yn ei roi ar ddiogelu plant a phobl ifanc.

5.1.2 Dylai pob plentyn ac unigolyn ifanc sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau GCYGM allu cymryd rhan mewn amgylchedd pleserus a diogel a chael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth. Mae hyn yn gyfrifoldeb pob oedolyn sy'n gysylltiedig â'r sefydliad.

5.1.3 Mae GCYGM yn cydnabod fod cam-drin plant yn bwnc emosiynol ac anodd iawn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb i ddiogelu lles pob plentyn ac unigolyn ifanc drwy eu hamddiffyn rhag camdriniaeth gorfforol, rywiol neu emosiynol, esgeulustod a bwlio. Rydym yn benderfynol o gyflawni ein cyfrifoldeb er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol, gyda gofal o'r safon uchaf posibl.

5.1.4 Mae'r polisi hwn yn cael ei lunio yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Plant Gwynedd ac Ynys Môn.

5.1.5 Caiff plentyn ei ddiffinio fel unigolyn o dan 18 oed (yn unol â Deddf Plant 1989).

### 5.2 Cyfrifoldeb GCYGM

5.2.1 Bydd GCYGM yn sicrhau ac yn cymryd cyfrifoldeb am:

- Benodi person dynodedig i fod yn gyfrifol am ddelio gydag unrhyw bryderon sydd yn ymwneud ag amddiffyn plant. Ceir manylion y person hwnnw a'u cyfrifoldebau yn adran 5.5.2 isod.
- Ymateb i unrhyw honiadau'n briodol a bod pob amheuaeth neu honiadau o gamdriniaeth yn cael eu hystyried o ddifri ac yn brydlon.
- Dilyn trefn recriwtio a dethol staff a tiwtoriaid yn ofalus gan gynnal unrhyw wiriadau cefndir perthnasol.
- Hyfforddi, goruchwylio ac annog pob aelod staff, tiwtor a gwirfoddolwr i ymddwyn yn unol â'r polisi hwn ac unrhyw Godau Ymarfer neu weithdrefnau cysylltiol.
- Adolygu'r polisi'n flynyddol.
- Cynnal asesiadau risg ar bob gweithgaredd.
- Hybu Arfer Da.

**5.3 Cyfrifoldeb staff, tiwtoriaid a gwirfoddolwyr**

5.3.1 Bydd disgwyl i staff, tiwtoriaid a gwirfoddolwyr sydd yn gweithredu yn enw GCYGM gymryd cyfrifoldeb am sicrhau eu bod yn ymwybodol o gynnwys a gofynion y polisi hwn a'r Canllawiau Ymddygiad sy'n gysylltiedig.

5.3.2 Adrodd am unrhyw bryder neu amheuaeth yn brydlon trwy ddefnyddio'r ffurflen briodol. (I unrhyw un sydd â phryder, cofiwch nid y person sy'n dod ar draws yr honiad o gam-drin, neu amheuaeth o gam-drin gyntaf sy'n gyfrifol am benderfynu a ddigwyddodd cam-drin ai peidio. Gwaith asiantaethau amddiffyn plant proffesiynol yw hyn wedi iddynt dderbyn gwybodaeth os oes pryder am y plentyn. Peidiwch poeni y gallech fod yn anghywir. Byddwch bob amser yn cael eich cymryd o ddifri ac mae'n well bod wedi trafod y mater gyda rhywun sydd â'r profiad a'r cyfrifoldeb i wneud asesiad.

5.3.3 Os bydd plentyn neu berson ifanc yn rhoi gwybod i chi am achos o gamdriniaeth neu os bydd rhywun yn datgelu ei fod yn cael ei gam-drin, p'un a yw yn y cartref neu mewn lleoliad arall, yna wrth gael y wybodaeth, dylech:

- Ymateb yn bwyllog
- Sicrhau'r plentyn ei fod wedi gwneud y peth iawn drwy roi gwybod ac nad oes bai ar y plentyn gan gymryd yr hyn y mae'r plentyn yn ei ddweud o ddifri
- Osgoi gofyn gormod o gwestiynau er mwyn sicrhau dealltwriaeth glir a chywir o'r hyn a ddwedwyd.
- Peidiwch â gofyn am fanylion penodol
- Cysuro'r plentyn, ond peidiwch ag addo cyfrinachedd, na fydd o bosibl yn ymarferol yng ngoleuni datblygiadau yn ddiweddarach – cofiwch ni ddylech gyffwrdd y plentyn
- Rhoi gwybod i'r plentyn/unigolyn ifanc am yr hyn y byddwch yn ei wneud nesaf
- Cadw cofnod llawn ac ysgrifenedig o'r hyn a ddywedwyd cyn gynted â phosibl a pheidiwch ag oedi cyn rhannu'r wybodaeth

- Rhannu'r wybodaeth gyda'r Pennaeth, yr Athro/Athrawes Diogelu Plant dynodedig, y Pennaeth Cerdd ar gyfer disgyblion yn yr ysgol neu Reolwr GCYGM, yn ddibynnol ar yr amgylchiadau.
- Holi'r person y rhannwyd y wybodaeth a hwy, o fewn wythnos o rannu'r wybodaeth, neu ar eich ymweliad nesaf â'r ysgol, pa gamau oedd wedi eu cymryd.

**5.4 Camau nesaf**

5.4.1 Unwaith bydd ffurflen wedi ei chwblhau a'i hanfon at y person dynodedig, nid cyfrifoldeb GCYGM fydd i benderfynu p'un a yw camdriniaeth wedi digwydd ai peidio. Fodd bynnag, byddwn yn rhannu'r wybodaeth gyda'r awdurdod priodol. Mae gan Ofal Cymdeithasol Plant ddyletswydd statudol o dan Ddeddf y Plant 1989 i sicrhau lles plentyn. Lle y gwneir atgyfeiriad i ddiogelu plentyn, mae ganddynt gyfrifoldeb gyfreithiol i ymchwilio ac mae gan bob asiantaeth ddyletswydd i gydweithredu â'r ymchwiliadau hynny. Gallai hyn gynnwys siarad â'r plentyn a'i deulu, a chasglu gwybodaeth gan bobl eraill sy'n adnabod y plentyn. Gellir cynnal ymchwiliadau ar y cyd â'r heddlu. Felly wrth reswm, mae'n rhaid cymryd pryderon am blant o ddifri.

5.4.2 Wrth adrodd, cofnodwch yr holl wybodaeth fel y gallwn lunio adroddiad ysgrifenedig os gofynnir i ni wneud hynny yn ddiweddarach.

**5.5 Person Dynodedig**

5.5.1 Y Person Dynodedig yn GCYGM ydi'r Cyfarwyddwr Creadigol.

5.5.2 Rôl y Person Dynodedig ydi:

- sefydlu cyswllt gydag uwch swyddogion y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant yn ardal, sef:
- darparu gwybodaeth a chyngor ar amddiffyn plant o fewn GCYGM
- sicrhau fod gweithdrefnau a pholisi amddiffyn plant y GCYGM yn cael eu dilyn ac yn arbennig rhoi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol ynglŷn ag unrhyw bryderon perthnasol am blant unigol
- cysylltu gyda'r gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill, fel bo'n briodol
- sicrhau y cedwir cofnod achos unigol o'r camau a gymerir gan GCYGM, y cyswllt gydag asiantaethau eraill a'r canlyniad pan fo adroddiad yn cael ei wneud
- cynghori ynglŷn ag anghenion hyfforddiant amddiffyn plant

**5.6 Arwyddion posib o Gamdriniaeth ac Esgeulustod:**

5.6.1 Mae arwyddion/dangosyddion camdriniaeth ac esgeulustod yn ddefnyddiol o'u defnyddio'n ofalus. Nid ydynt o reidrwydd yn dystiolaeth o gamdriniaeth neu esgeulustod. Fodd bynnag, os bydd gennych bryderon am blentyn neu unigolyn ifanc, gallant eich helpu i feddwl am y rheswm dros y pryder hwnnw.

5.6.2 Arwyddion a allai awgrymu camdriniaeth gorfforol:

- Cleisiau lluosog i rannau gwahanol o'r corff

- Cleisiau o liwiau gwahanol sy’n awgrymu anafiadau parhaus
- Cleisiau blaenau’r bysedd i’r cefn, breichiau neu’r coesau
- Llosgiadau o unrhyw siâp neu faint
- Anaf nad oes unrhyw esboniad digonol ar ei gyfer

5.6.3 Arwyddion o gamdriniaeth rywiol bosibl:

- Rhywbeth y mae plentyn wedi’i ddweud wrthych
- Rhywbeth y mae plentyn wedi’i ddweud wrth rywun arall
- Plentyn sy’n dangos ymddygiad wedi’i rywioli sy’n peri pryder wrth chwarae neu ymhlith plant eraill
- Plentyn yr ymddengys fod ganddo wybodaeth rywiol sy’n amhriodol am ei oedran

5.6.4 Arwyddion a allai awgrymu niwed emosiynol:

- Mae’n bosibl y bydd yr arwyddion canlynol i’w gweld ymhlith plant y mae eu rhieni’n or-feirniadol ac yn oeraidd yn emosiynol, neu nad ydynt yn gallu bodloni anghenion emosiynol eu plentyn:
- Plant sy’n niweidio eu hunain e.e. mae’n bosibl y byddant yn torri neu’n crafu eu hunain
- Plant sy’n meddwl neu’r bwriadu cyflawni hunanladdiad
- Plant sy’n dangos lefelau uchel o ofid, anhapusrwydd neu’n mynd i’w cragen
- Plant sydd fel arfer yn chwilio am sylw neu’n ei osgoi

5.6.5 Arwyddion a allai awgrymu esgeulustod:

- Plant yr ymddengys eu bod wedi blino neu nad oes ganddynt egni’n barhaus
- Arogl drwg ar blentyn, neu ddillad budur
- Plant sy’n dioddef anafiadau rheolaidd oherwydd diffyg goruchwyliaeth.

5.6.6 Sylwer bod y rhestrau hyn yn ddangosyddion posibl o gamdriniaeth a bod yn rhaid ystyried unrhyw arwyddion o gamdriniaeth yn eu cyd-destun.

**5.7 Ffyrdd cadarnhaol o ddiogelu plant:**

5.7.1 Beth sydd ei angen ar blant?

- I deimlo’n sicr ac yn ddiogel
- Iechyd a hapusrwydd
- Sylw priodol
- Llawer o wenu
- Canmoliaeth ac anogaeth
- Gallu siarad â rhywun
- Cael rhywun i wrando arnynt
- Profiadau newydd
- Parch am eu teimladau

- Gwobrau a chymhelliannau.

## 6. Recriwtio

6.1 Mae GCYGM yn ymroddedig i egwyddorion recriwtio diogel ac fel rhan o hynny, mae’n mabwysiadu gweithdrefn recriwtio sy’n helpu i atal, gwrthod a/neu ganfod pobl a allai fod yn berygl i blant a phobl ifanc.

6.2 Bydd prosesau recriwtio diogel a chadarn yn cael eu dilyn gadarn o ran DBS, asesiadau diogelu, asesiadau risg, deunydd cyhoeddusrwydd, gwefan recriwtio, hysbysebion, gwybodaeth ymgeisydd, hyfforddiant diogelu ac ati. Bydd gwiriadau DBS yn cael eu cynnal mewn ffordd amserol a chyson cyn i unrhyw aelod newydd o staff gychwyn gweithio i’r gwasanaeth.

## 7. Monitro ac adrodd

7.1 Bydd gweithrediad y polisi hwn yn cael ei fonitro yn agos, gyda unrhyw achosion o fethu a chydymffurfio yn cael ei adrodd i’r Ymddiriedolwyr.

## 8. Hyfforddiant

8.1 Bydd staff a tiwtoriaid yn derbyn hyfforddiant blynyddol ar Amddiffyn a Diogelu Plant wedi ei drefnu gan GCYGM.

## 9. Adolygu

9.1 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu yn flynyddol i sicrhau ei fod yn parhau yn gyfredol.

Mabwysiadwyd gan Fwrdd Ymddiriedolwyr GCYGM ar y: 10ed o Ebrill 2025.

**Canllawiau Ymddygiad**

Mae'n ofynnol i staff a thiwtoriaid ddarllen a dilyn y canllawiau hyn. Gall diffyg cydymffurfio â'r canllawiau arwain at gynnal achos disgyblu neu derfynu cytundeb gyda GCYGM.

Cod Ymddygiad Proffesiynol

- Perthynas – Dylai staff a tiwtoriaid roi lles y plant a phobl ifanc sydd yn ymwneud a GCYGM yn gyntaf ar bob achlysur. Dylai staff a thiwtoriaid gymryd gofal fod eu perthynas gyda disgyblion yn adlewyrchu eu hoedran, rhywedd ac aeddfedrwydd. Mae'n benodol bwysig nad ydi iaith, agwedd nac ymarweddiad – sut bynnag bo hynny yn digwydd – yn esgor ar gamddealltwriaeth, yn enwedig pan yn delio â bechgyn a merched yn eu harddegau. Dylid osgoi sylwadau ac ymddygiad amwys.
- Cyswllt corfforol – Gall cyffyrddiadau corfforol gael eu camddehongli gan ddisgyblion, rhieni ac unrhyw un arall sydd yn ei weld. Ni ddylai staff na thiwtoriaid gyffwrdd disgyblion heb reswm dilys a dylid osgoi defnyddio 'dull dysgu' i gyfiawnhau cyffwrdd.
- Teithio – Ni ddylai staff na thiwtoriaid gynnig 'lifft' i ddisgyblion oni-bai fod rhiant wedi rhoi caniatâd i hynny ddigwydd. Petai hynny'n digwydd, dylech sicrhau fod eich yswiriant yn caniatáu hynny.
- Ymddygiad cyffredinol – Dylai staff, gwirfoddolwyr a thiwtoriaid ymddwyn yn broffesiynol ar bob achlysur gan gadw at amser, bod wedi paratoi'n drylwyr ac wedi gwisgo'n addas. Ni ddylai unrhyw aelod staff, gwirfoddolwr neu diwtor fod dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau o dan unrhyw amgylchiad.

O fewn lleoliad ysgol

- Rhaid i staff a thiwtoriaid sy'n gweithio mewn ysgolion fod yn ymwybodol o'r Arweinydd Diogelu Dynodedig ar gyfer pob ysgol y maent yn gweithio ynddi.
- O fewn lleoliad ysgol, rhaid i unrhyw aelod o staff sy'n derbyn datgeliad neu honiad o gam-drin, neu sy'n amau bod cam-drin wedi digwydd, roi gwybod i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig o fewn yr ysgol cyn gynted â phosibl ac adrodd yn ôl cyn gynted â phosibl i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig o fewn GCYGM a sicrhau fod y ffurflen yn cael ei chwblhau cyn gynted a phosibl.

Lleoliad y tu allan i'r ysgol

- Mae hyn yn cynnwys ensembles rhanbarthol, cyngherddau, teithiau addysgol, Cyrsiau a Gwyliau.
- Rhaid i unrhyw aelod o staff sy'n derbyn datgeliad neu honiad o gam-drin, neu sy'n amau bod cam-drin wedi digwydd, roi gwybod i'r uwch-staff sy'n bresennol cyn gynted â phosibl ac i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig yn GCYGM a sicrhau fod y ffurflen yn cael ei chwblhau cyn gynted a phosibl.

Cysylltu gyda disgyblion

- Ffonau symudol – Dylid osgoi cysylltu efo disgyblion ar ffonau symudol, gan gynnwys negeseuon testun. Dim ond mewn amgylchiadau arbennig y dylid rhoi eich rhif ffon symudol i ddisgybl. Os oes rhaid gwneud hynny, dylech adael i GCYGM wybod gan esbonio'r rheswm

dros wneud. Fel mater o arfer da, nid yw GCYGM yn annog staff na thiwtoriaid i rannu rhif ffôn gyda rhieni.

- E-bost – Dylai staff a thiwtoriaid gysylltu gyda disgyblion neu rieni drwy ddefnyddio e-bost y gwasanaeth yn unig. Ni ddylid defnyddio e-bost personol.
- Llythyrau – Ni ddylai staff na tiwtoriaid gysylltu yn uniongyrchol efo disgyblion trwy lythyr, yn arferol. Bydd GCYGM yn ganolog yn gyfrifol am gysylltu efo disgyblion neu rieni ar faterion sydd yn ymwneud â'r gwasanaeth.
- Cyfryngau cymdeithasol – Fel mater o drefn ni ddylech ychwanegu disgyblion fel 'ffrind' ar gyfryngau cymdeithasol. Dylech hefyd ystyried o ddifri i ychwanegu rhieni disgyblion fel 'ffrindiau' os mae'r unig gyswllt sydd rhyngoch chi ydi'r cyswllt trwy wasanaethau GCYGM. Ni ddylid defnyddio cyfryngau cymdeithasol tra yn gweithio i'r GCYGM.
- Dysgu ar-lein – Dylai staff a thiwtoriaid amddiffyn eu hunain rhag cyswllt amhriodol damweiniol gyda disgyblion drwy gyfyngu eu proffil ar y platfform dysgu ac i beidio derbyn ceisiadau am gyswllt gan ddisgyblion. Dylai'r ysgol, rhieni/ gwarcheidwad sicrhau fod y disgybl yn deall hyn. Bydd tiwtor GCYGM yn pwysleisio i'r disgyblion ac i'r staff a'r rhieni/ gwarcheidwad fod y platfform ar-lein dewisedig i'w ddefnyddio ar gyfer gwersi yn unig ac nid ar gyfer unrhyw gyswllt arall rhwng y tiwtor a'r disgybl. Dylid rhannu gwybodaeth am unrhyw gamddefnydd neu broblem posib gyda'r Cyfarwyddwr Creadigol a dylai tiwtoriaid gofnodi unrhyw ddigwyddiad diogelwch ar-lein yn unol â chanllawiau unrhyw ddigwyddiad diogelu.

Canllawiau o fewn ysgolion – Pan fo staff neu diwtoriaid yn mynychu ysgolion yn enw'r GCYGM mae'n hanfodol dilyn pob rheol a chanllaw perthnasol yn yr ysgol yn ogystal ac unrhyw ofynion trwy'r polisi hwn. Fel arfer da:

- Dylech wybod pwy ydi'r person dynodedig o ran gwarchod plant ym mhob ysgol
- Ceisiwch sicrhau bod gan yr ystafell ddysgu ffenestr. Os nad oes, dylech adael y drws ar agor.